



Adroddiad y Prif Arholwr

Arholiadau Aelodaeth Sylfaenol Hydref 2015

Mae Aelodaeth Sylfaenol yn cyfateb i waith a wneir dan oruchwyliaeth ar lefel broffesiynol sylfaenol. Disgwylir i'r ymgeisydd gynhyrchu gwaith cywir, addas a graenus o fewn terfynau amser.

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 14

Llwyddo: 6

Braf iawn oedd gweld cryn nifer yn llwyddo yn yr arholiad y tro hwn, ac roedd cryn addewid i'w weld yng ngwaith yr ymgeiswyr llwyddiannus. Arbennig o braf oedd gallu dyfarnu Gwobr Goffa Wil Petherbridge (am y tro cyntaf ers rhai blynyddoedd) i un ymgeisydd arbennig o addawol, a lwyddodd i gyflawni rhagoriaeth yn ei gyfieithiad o'r darn cyntaf.

Wedi dweud hynny, roedd y safon yn gyffredinol yn amrywio cryn dipyn, gyda nifer o ymgeiswyr ffiniol, a hynod rhwystredig oedd gweld ambell ymgeisydd digon addawol yn methu â chyrraedd y safon oherwydd rhai gwallau esgeulus oedd yn amharu ar y cyfanwaith.

Cafwyd hefyd, gwaetha'r modd, ambell bapur oedd yn wan iawn, ac roedd natur ac amllder y gwallau a welwyd yn y papurau hynny yn dangos bod yr ymgeiswyr dan sylw wedi'u trechu'n llwyr gan y darnau.

Roedd ôl meddwl, gofal a golygu yng ngwaith yr ymgeiswyr gorau, a heblaw am rai llithriadau sy'n ddigon dealladwy o dan amodau arholiad ar y lefel Sylfaenol, roeddent wedi ymdrin â'r darnau'n dda, er bod pawb wedi tueddu i gael gwell hwyl ar y darn cyntaf na'r ail ddarn.

Dyma rai enghreifftiau o gyffyrddiadau da a gafwyd:

will have a lasting legacy

adael ei farc am amser i ddod

one of the key areas of legacy gains

un o'r meysydd allweddol fu ar ei ennill yn sgil

once it has happened

wedi iddo fynd heibio

*The oil industry, with its history of booms and busts, is in a new downturn.
Mae'r diwydiant olew, gyda'i hanes o ffynnu a methu, ar i lawr unwaith eto.*

*last seen during the depths of the 2009 recession
ni welwyd prisiau o'r fath ers dyddiau du y dirwasgiad yn 2009
lefel nas gwelwyd er dyfnderoedd dirwasgiad 2009*

Yn anffodus, fodd bynnag, cafwyd hefyd lawer o enghreifftiau o gyfieithu aflwyddiannus, a gwelwyd ymgeiswyr yn methu â chyfleu ystyr y gwreiddiol, neu'n ceisio cyfleu'r ystyr, ond yn cael eu trechu gan y gystrawen ac yn cynhyrchu cyfieithiadau gwallus a thrwsgl. Gwaetha'r modd, cafwyd ambell frawddeg oedd yn hollol garbwl, e.e.:

Ac eto gobeithia'r ddinas mai cael ei dewis i gynnal beth a elwir yn Grand Départ yn golygu gadael effaith hir – dymor, yn debyg i'r buddion daeth y digwyddiad i Swydd Efrog, Caergrawnt a Llundain.

Roeddynt yn cynnwys: cael mwy o bobl i seiclo, ei wneud yn haws i bobl i ddewis i seiclo, lledu'r niferoedd ac ymwybyddiaeth o gystadlaethau seiclo, generadu mwy o ymwybyddiaeth am seiclo a maethu rhwydwaith ffyniannus o fusnesau seiclo a mentrau cymdeithasol.

Mae enillion i lawr ar gyfer cwmnïoedd sy wedi gwneud elwau record yn y blynyddoedd diweddar, gan orfodi iddyn ddigomisiynu mwy na hanner ei llwyfannau olew a gwneud toriadau llym i fuddsoddiadau mewn ymchwiliad a chynhyrchiad.

Mae enghreifftiau fel y rhain yn cynnwys gwallau difrifol o ran ystyr, cywair a chystrawen, ac yn anffodus, gwelwyd hefyd ddigonedd o enghreifftiau o wallau cywirdeb. Er y gellir maddau ambell lithriad wrth deipio mewn arholiad, rhaid darllen y gwaith yn fanwl iawn cyn ei gyflwyno, a manteisio ar gymhorthion fel y gwirydd sillafu, fydd yn helpu i amlygu rhai o'r gwallau.

Dyma rai enghreifftiau o'r gwallau treiglo ac ati a welwyd:

***annog fwy o bobl i feicio
ddwy filiwn pobl
yn haws i bobol dewis seiclo
ers gyfnodau tywyllaf
a welwyd diwethaf
mwy nag hanner
ar ôl iddo digwydd
bump target
pedwar mlynedd
difynio [am 'diffinio']***

Gwelwyd hefyd gryn dipyn o ddylanwad y Saesneg ar batrymau'r Gymraeg, gydag enghreifftiau fel 'mae'n dod lawr i economeg', 'fuddsoddiadau mewn ymchwiliad a chynhyrchiad' yn dangos tuedd i gyfieithu'n rhy slafaid, air am air, heb feddwl am union ergyd y gwreiddiol na phatrymau cynhenid yr iaith darged.

Wrth longyfarch yr ymgeiswyr llwyddiannus, felly, rhaid annog y rhai a fu'n aflwyddiannus i edrych yn fanwl ar eu gwaith, a manteisio ar bob cyfle a ddaw i'w rhan i gael hyfforddiant ac arweiniad, er mwyn dysgu eu crefft yn drylwyr. Er mwyn llwyddo yn yr arholiad sylfaenol, rhaid sicrhau meistrolaeth ddigonol ar batrymau'r Gymraeg i fedru cyfleu ystyr y gwreiddiol mewn modd sy'n llifo'n naturiol, ac er bod modd maddau ambell wall sydd wedi llithro trwy'r rhwyd, dylai'r gwaith yn gyffredinol fod yn lân, ac wedi'i olygu'n ofalus.

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 10

Llwyddo: 6

Braf yw nodi bod dros hanner yr ymgeiswyr yn y rownd hon wedi llwyddo i gyrraedd y safon angenrheidiol i lwyddo ar y lefel Sylfaenol, a bod sawl ymgeisydd wedi llwyddo i gyflawni rhagoriaeth, er na lwyddodd neb i wneud hynny yn y ddau ddarn. Calonogol oedd gweld nad oedd yr un ymgeisydd gwirioneddol wan, er i sawl un gael gwell hwyl ar un darn na'r llall, ac mae'n bosib iawn bod modd priodoli hyn i'r hyfforddiant sy'n cael ei gynnig gan y Gymdeithas i ddarpar-ymgeiswyr cyn iddynt sefyll yr arholiad.

Dyma rai enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus a welwyd yn y ddau ddarn:

ers i ddyn ddarganfod bod halen yn cadw bwyd rhag pydru
ever since man discovered that salt can preserve foods

arwain at ormodedd o halen
led to an excessive use of salt

effaith hynny ar allu'r staff i ddarparu gofal o'r safon uchaf
its impact on the staff's ability to provide the highest quality of care

hen faenordy
former manor house [defnyddiwyd 'old' gan y mwyafrif, ac mae hynny'n ddigon derbyniol, ond mae 'former' yn dangos dealltwriaeth o'r gwir ystyr yma]

Fodd bynnag, cafwyd hefyd enghreifftiau lle na lwyddwyd i greu cyfieithiad llwyddiannus:

arwain at ormodedd o halen
main culprits which has led to our salt excess today

bwydydd parod a chludfwyd
ready-made meals and food on delivery

effaith hynny ar allu'r staff i ddarparu gofal o'r safon uchaf
its impairment on its staff's ability to carry out the best rate of care

sicrhau gofal diogel
care safety

Fel y dengys ambell un o'r enghreifftiau uchod roedd tuedd gan ambell un i gyfieithu air am air heb feddwl am ystyr gyffredinol y darn a cheisio cyfleu'r neges mewn modd naturiol yn yr iaith darged.

Cafwyd rhagor o enghreifftiau o ffurfiau nad oeddent yn taro deuddeg yn Saesneg, megis 'Works Committee' (yn hytrach nag 'Executive Committee'), 'corn crisps' (yn hytrach na 'corn flakes'), a 'the food eaten by us' (yn hytrach na 'the food we eat'), yn ogystal â rhai lle roedd dylanwad patrymau'r iaith wreiddiol yn rhy amlwg, e.e. defnydd diangen o'r fannod yn 'the blood pressure' a 'a further, wider discussions', heb sôn am 'many foods we will buy', lle cyfieithwyd y 'bydd' oedd yn y Gymraeg yn llythrennol, heb sylweddoli ei fod yn cyfleu'r presennol arferiadol.

Er bod mwyafrif o'r ymgeiswyr yn llwyddiannus, felly, a bod elfennau da ym mhob darn a gyflwynwyd, carwn annog pob un o'r ymgeiswyr i barhau i fireinio'u crefft, ac i fanteisio ar bob cyfle i gael hyfforddiant pellach. Y neges, fel ym mhob rownd, yw bod angen ceisio ymgyfarwyddo â iaith ysgrifenedig gadarn, ac amrywiaeth o arddulliau yn y ddwy iaith, ac yna sicrhau bod y gwaith cyfieithu a golygu yn cael ei wneud mor fanwl â phosibl yn yr arholiad ei hun.

Wrth gloi fy adroddiad, carwn ddiolch i'r holl farcwyr am eu gwaith trylwyr, ac i staff y swyddfa am bob cymorth. Mae'r tîm cyfan bob amser yn barod eu cymwynas, ac yn amyneddgar dros ben – diolch o galon iddynt i gyd am hwyluso gwaith y Prif Arholwr i'r fath raddau.

Fiona Gannon
Tachwedd 2015